

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 08 CHWEFROR 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype) (tan gofnod 54); Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (cofnodion 50.2 i 56).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; a'r Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor.

40. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Is-Ganghellor

Ni fyddai'r Is-Ganghellor yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd profedigaeth deuluol. Mynegodd yr aelodau eu cydymdeimlad â'r Athro Treasure a'i theulu am eu colled.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw Adam Dewulf-Peters, myfyriwr yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

3. Ymddiswyddiad

Ar 03 Chwefror 2019, roedd yr Athro Syr Ian Diamond wedi ymddiswyddo o'r Corff Llywodraethu oherwydd ymrwmiadau eraill. Roedd camau'n cael eu cymryd yn awr i lenwi dau le gwag i Aelodau Annibynnol ar y Cyngor, a byddai argymhellion yn cael eu cyflwyno yn y man.

4. Trafodaethau ag aelodau'r Cyngor

1. Yn ddiweddar, roedd Cadeirydd y Cyngor wedi cynnal trafodaethau unigol â holl aelodau'r Cyngor ynglŷn â dulliau gweithredu'r Cyngor a'i is-bwyllgorau dros y misoedd diweddar. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn, ac roedd fframwaith newydd y pwyllgorau'n gweithredu'n dda.

2. Atgoffwyd yr aelodau y byddai digon o gyfle i awgrymu rhagor o welliannau i'r dulliau o lywodraethu'r Brifysgol, yn rhan o'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd llywodraethu sefydliadol gan AdvanceHE.

5. Y Dirprwy Is-Gangellorion

Ar 24 Ionawr 2019, cyfarfu Pwyllgor Dewis penodi'r Dirprwy Is-Gangellorion er mwyn ystyried yr enwebiadau a ddaeth i law. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal yn awr â'r unigolion ar y rhestr fer. Câi canlyniadau'r trafodaethau eu hadrodd i'r Pwyllgor Dewis, gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i'r Cyngor eu cymeradwyo ar 12 Ebrill 2019.

6. Digwyddiadau eraill

Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli'r corff llywodraethu yn y digwyddiadau canlynol:

1. cyfarfod cyhoeddus blynyddol y Cyngor Cyllido;
2. derbyniad a chinio yng Nghaerdydd i ddirprwyaeth addysgol o Fiet Nam, ynghyd â'r Athro Qiang Shen (Dirprwy Is-Ganghellor, Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); a
3. Y 'Citizens' Assembly' ar 04 Chwefror 2019, i siarad am ddull y Brifysgol o weithredu'r Gwir Gyflog Byw.

41. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

42. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2018 (COU1819-070); a
2. Newidiadau a gynigiwyd i ddrafft y cofnodion ar gyfer eitemau 22 a 23 (COU1819-098).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar ymgorffori'r newidiadau a gynigiwyd i gofnodion 22 a 23 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

43. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1819-071).

NODWYD

1. Adroddiad yr Is-Ganghellor (cofnod 23)

Yn ddiweddar, bu cynrychiolwyr o'r Brifysgol mewn cyfarfod rhwng cynrychiolwyr Prifysgolion Cymru a Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd cynllun Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru. Gobeithiwyd y byddai'r Gweinidog yn ystyried cynnwys rhagor o brifysgolion Cymru ar restr y sefydliadau a hyrwyddir gan Rwydwaith Seren.

2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

44. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-072); a
2. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol ynghylch penderfyniad pellach a wnaed ers i bapurau'r cyfarfod gael eu dosbarthu (COU1819-096).

NODWYD

3. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo naill ai gan aelodau trwy ohebiaeth, neu'n weithredol gan Gadeirydd y Cyngor yn unol â darpariaeth y Rheolau Sefydlog.
4. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. diweddariad am yr ystadau i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido.
5. Y materion a gymeradwywyd gan Gadeirydd y Cyngor oedd:
 1. Adroddiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd, a adawyd oddi ar agenda cyfarfod diwethaf y Cyngor trwy amryfusedd;
 2. diwygiadau i Adroddiad Blynyddol y ddyletswydd 'Prevent', yn unol â chais y Cyngor, ar 26 Tachwedd 2018, y dylai unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol gael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd; a
 3. mân ddiwygiadau i gynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol am 2019–20.

45. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

46. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1819-073).

NODWYD

2. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; ystyriaethau cynllunio allweddol a datblygiadau yn y sector; amcan ynghylch niferoedd myfyrwyr a chrynodeb o weithgareddau denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
3. Disgwylid y bydd adolygiad Augar o addysg ôl-18 yn Lloegr yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Er na fyddai Llywodraeth y DU o angenrheidrwydd yn cymryd camau yn Lloegr o ganlyniad i argymhellion yr adroddiad, gallai unrhyw newidiadau i drefniadau yn Lloegr - yn enwedig yn ymwneud â ffioedd dysgu'r prifysgolion - gael effaith sylweddol ar Gymru. Lle bo'n bosibl, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn modelu goblygiadau posibl yr argymhellion a wnaed gan adolygiad Augar i'r sefydliad.
4. Trafododd yr aelodau grynoded o'r gweithgaredd denu myfyrwyr a oedd yn cael ei wneud i ddenu cymaint o fyfyrwyr â phosibl ym mis Medi 2019. Roedd Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr yn gweithio ar is-strategaeth sefydliadol newydd ar gyfer denu myfyrwyr. Byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau denu myfyrwyr rhyngwladol, a byddai'n cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghylch pwyllgorau Mawrth/Ebrill 2019.

5. Ers rhai blynyddoedd, roedd y Brifysgol wedi cyflogi gwasanaeth amrywiol ymgynghorwyr allanol i roi cyngor ynglŷn â'r portffolio academaidd a gynigir, yn ogystal â gweithgareddau marchnata a denu myfyrwyr. Holodd yr aelodau sut y mae canlyniadau'r prosiectau hyn yn cael eu defnyddio yn yr is-strategaeth arfaethedig ar gyfer denu myfyrwyr.
6. Croesawodd yr aelodau'r ffaith fod amserlen lefel-uchel wedi'i chynnwys ar gyfer drafftio a chymeradwyo'r amrywiol is-strategaethau a gynigiwyd gan Weithrediaeth y Brifysgol. Byddai'r Calendr yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys amcan o bryd y byddai'r is-strategaeth yn gysylltiedig â Ffermydd y Brifysgol yn cael ei datblygu (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Strategaeth Newid).

PENDERFYNWYD

7. Y byddai Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr yn dod i'r cyfarfod ar 12 Ebrill 2019 i gyflwyno'r is-strategaeth arfaethedig ar gyfer denu myfyrwyr (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).
8. Paratoi nodyn byr yn amlinellu sut y mae cyngor yr ymgynghorwyr allanol yn cael ei ddefnyddio yng ngweithgaredd y Brifysgol ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr, a gweithgareddau eraill (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).

47. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU1819-074).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAbber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

48. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell, yn ymgorffori crynodeb o berfformiad ariannol Chwarter 1 2018–19 (COU1819-075).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 2018-19, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am newidynnau allweddol perthnasol.
2. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn deall yr angen i gwrdd â'r gyllideb y cytunwyd arni am 2018-19, a disgwyliad y Cyngor oedd y byddai gwarged yn y gyllideb yn cael ei dargedu erbyn 2019-20. Ond, cydnabuwyd bod yr hinsawdd yn dal yn heriol ac na fyddai rhai o'r arbedion a wnaed yn ystod y flwyddyn i gwrdd â'r gyllideb gyfredol yn cael eu hailadrodd.
3. Ar 24 Ionawr 2019, roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi adolygu a diwygio rhagolygon ariannol y sefydliad yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd yn 2018-19, a'r nifer a ragwelir yn seiliedig ar sefyllfa ceisiadau am fynediad yn 2019-20. Byddai fersiwn bellach o'r rhagolygon hyn - gan gynnwys

ymateb manylach gan Weithrediaeth y Brifysgol, yn defnyddio'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ac yn cael eu hystyried yn rhan o'r cylch cynllunio ar gyfer cyllideb 2019-20 - yn cael eu cyflwyno i'w hystyried yn ystod y cylch nesaf o gyfarfodydd.

2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Cyfarwyddwr Strategaeth Newid; y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1819-076).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.
2. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd fod yr amrywiol achosion busnes a oedd yn mynd rhagddynt yn rhan o'r CGC yn rhai sy'n unol â strategaeth gyffredinol y sefydliad, yn ogystal â'r syniadaeth ddiweddaraf yng nghyswllt yr is-strategaethau sy'n cael eu datblygu.

PENDERFYNWYD

3. Y byddai fersiwn nesaf yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor fod y strwythurau diwygiedig sy'n cael eu gweithredu yn rhai sy'n unol â strategaeth sefydliadol a'r is-strategaethau arfaethedig (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Strategaeth Newid).

3. Adnodd Credyd Cylchdroawl

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1819-077).

NODWYD

1. Ar 08 Mehefin 2018, roedd y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i argymhelliad oddi wrth y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, fel yr oedd ar y pryd, i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl er mwyn hwyluso llif arian wrth gyflawni gwaith ar brosiectau cyfalaf sylweddol y sefydliad.
2. Cafodd y dogfennau a atodwyd i adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol eu hystyried a'u trafod gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD

3. Cadarnhau'r penderfyniad blaenorol i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl, a chymeradwyo'r penderfyniad ffurfiol a fynnir gan y benthyciwr, yn unol â'r cofnod ar wahân yn Atodiad 1. **GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

NODYN AR ÔL Y CYFARFOD

4. *Yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 08 Chwefror 2019, derbyniwyd cais gan y benthyciwr i gynnwys Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth (AIEC) Cyf fel parti i gytundeb yr Adnodd Credyd Cylchdroawl. Arweiniodd hyn at yr angen i'r*

49. GWAREDU ASED

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety (COU1819-097).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnig gwaredu rhagor o eiddo a leolir yn agos at dir fferm sy'n cael ei werthu ar hyn o bryd. Er nad oedd wedi'i gynnwys ar restr wreiddiol yr asedau i'w gwaredu, ni fyddai angen y tir ar gyfer datblygiad strategol yn y dyfodol.
2. Yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol, cafwyd tri gwerthusiad ar wahân ar gyfer y tir i'w waredu.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo gwaredu'r tir mewn egwyddor, yn amodol ar gael gwybod a fyddai gwerthu'r tir a'r eiddo gyda'i gilydd yn cynyddu gwerth y ddau; a phe byddai cynnydd yn eu gwerth gyda'i gilydd, y dylid cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety).

50. PROSIECTAU CYFALAF MAWR

1. Pantycelyn

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety, a Phennaeth Llety a Datblygu Llety (COU1819-078).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad - a ystyriwyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 24 Ionawr 2019 - fanylion diweddaraf ynglŷn â'r prosiect, o ran ei ddatblygiad, ei gynllun a'i gwmpas, yr amserlen, a pha mor fforddiadwy ydyw.
2. Er y gellid, yn amodol ar y beirianeg gwerth terfynol, adnewyddu Pantycelyn am y £10m + TAW y cytunodd y Cyngor iddo ym mis Tachwedd 2017, nodwyd yn yr arolygon a wnaed o safle Pantycelyn dros y misoedd diweddar, bod gwaith cynnal a chadw ychwanegol wedi crynhoi.
3. Nodai'r adroddiad sut y gellid cyllido'r gwaith sydd ei angen ar yr adeiladwaith trwy ddefnyddio cyllideb Diogelu a Sefydlogi'r Brifysgol. Cafodd yr aelodau eu sicrhau na fyddai defnyddio'r gyllideb hon yn effeithio ar unrhyw waith brys arall i adeiladau eraill.
4. Disgwylid y derbynnir y cynnig cyfandaliad olaf gan Morgan Sindall tua dechrau mis Ebrill 2019. Er mwyn prysuro materion fel y gellid llofnodi'r cytundebau heb oedi gormodol, gofynnid yn awr am gymeradwyaeth i greu contract â Morgan Sindall am werth cyfun hyd at £16.5m (yn cynnwys TAW).
5. Mynegodd yr aelodau eu siom bod amserlen y prosiect ddau fis arall ar ei hôl hi, a phwysleisiwyd bod angen nawr i'r gwaith ddechrau cyn gynted â phosib. Byddai angen cadw rheolaeth lem ar y prosiect i sicrhau bod yr adnewyddu'n cael ei

orffen mewn da bryd ar gyfer mis Medi 2020, a hynny i'r safonau uchel angenrheidiol.

6. Gofynnodd yr aelodau hefyd am sicrwydd bod diwydrwydd dyladwy priodol wedi'i wneud ar allu Morgan Sindall i gyflawni'r prosiect. Er bod hyn yn debygol o fod wedi'i ystyried wrth gynnwys Morgan Sindall yn gontractwr cymeradwy ar fframwaith SEWSCAP, fe wneir ymholiadau ar y mater serch hynny (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

PENDERFYNWYD

7. Cymeradwyo cytundebau i gyfanswm heb fod yn uwch na £16.5m (yn cynnwys TAW) gyda Morgan Sindall, i dalu'r holl gostau cyfalaf pan dderbynnir y cyfandaliad olaf ym mis Ebrill 2019. **PLEIDLAIS:** 15 o blaid, un bleidlais wedi'i hatal) (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
8. Y dylai aelodau'r Cyngor dderbyn adroddiadau misol am gynnydd prosiect adnewyddu Pantycelyn, yn debyg i'r rhai a dderbyniwyd gan y Cadeirydd ynglŷn â phrosiect Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

2. Yr Hen Goleg

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (COU1819-079).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion ynglŷn â'r paratoadau i gyflwyno cais am ail gyloch y cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri; cynlluniau a chostau adeiladu; gweithgaredd codi arian; a datblygiad cynllun busnes. Amlinellwyd hefyd y prif gerrig milltir y bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar eu cyfer.
2. Ystyriwyd fersiwn gynharach o'r adroddiad gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 24 Mai 2019, lle'r oedd yr aelodau wedi gofyn am adroddiad erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ynglŷn â blaen-amcanion ariannol y prosiect, gan gynnwys oblygiadau TAW, yn ogystal â chynllun busnes mwy hirdymor i'r Hen Goleg. Byddai copi o'r adroddiad hwn hefyd yn cael ei rannu â'r Cyngor yn ei gyfarfod nesaf.
3. Câi apêl codi arian ei lansio yn y dyddiau nesaf, gyda'r nod o godi £3m mewn incwm dyngarol gan gyn-fyfyrrwyr a chyfeillion y Brifysgol. Amlinellwyd amrywiol agweddau'r ymgyrch, ac anogwyd aelodau'r Cyngor i ddangos eu cefnogaeth lle bo'n bosibl.

51. **FFERMYDD Y BRIFYSGOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (COU1819-080).

NODWYD

1. Yn dilyn camau a gymerwyd i adolygu a gwella iechyd a diogelwch ar ffermydd y Brifysgol, roedd camau'n cael eu cymryd i wella'u perfformiad ariannol. Cafodd cyfres o

ddewisiadau eu datblygu gyda Reolwr newydd y Ffermydd a thîm IBERS. Cawsant eu hystyried gan Weithrediaeth y Brifysgol ar 15 Ionawr 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylid gweithredu Opsiwn D.

2. Pan fydd perfformiad ariannol y ffermydd wedi sefydlogi, byddai'r gwaith yn dechrau i ddatblygu strategaeth fwy hirdymor, gan ystyried elfennau perthnasol yr ystadau, y dysgu a'r addysgu, a strategaethau ymchwil. Disgwylir i'r strategaeth hirdymor gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ac i'r Cyngor yn nes ymlaen yn y flwyddyn (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi)).

52. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (COU1819-081).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y 10 Dangosydd Perfformiad Allweddol anariannol y cytunodd y Cyngor arnynt ar 23 Mawrth 2018.

53. IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1819-085).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2019, roedd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) wedi ystyried Strategaeth a Chynllun Gweithredu newydd yng nghyswllt lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am 2018-21, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am y cyfnod 01 Ionawr tan 31 Gorffennaf 2018.
2. Trafododd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu arfaethedig yn fanwl, ac argymhell y dylai'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar fân ddiwygiadau. Ond ni wnaed yr holl newidiadau i'r ddogfen ddiwygiedig cyn ei dosbarthu i'r Cyngor.
3. Dim ond cyfnod saith mis yr oedd yr Adroddiad Blynyddol yn ei gwmpasu er mwyn ei ail-unioni â chyfnod y flwyddyn academiaidd. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd rhai o'r rheoliadau iechyd a diogelwch eu torri, ac anogodd yr aelodau Weithrediaeth y Brifysgol i ystyried pa ddull fyddai orau i adrodd ar achosion o dorri amodau i'r corff llywodraethu yn y dyfodol.**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am 2018-21, yn amodol ar wneud yr holl ddiwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor LI&Ch ar 24 Ionawr 2019 (**GWEITHREDU:** Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

54. DIWEDDARIAD THEMATIG: CENADWRI DDINESIG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (COU1819-083).

NODWYD

1. Rhoddai'r diweddariad thematig grynodedb o weithgaredd y Brifysgol yn gysylltiedig â Chenadwri Ddinesig a Chymunedol, yn ogystal â'r cyd-destun strategol cysylltiedig. Lluniwyd yr adroddiad yn unol â phenawdau a amlygwyd yn ddiweddar gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru, wrth amlinellu ei disgwyliadau o'r sector Addysg Uwch yng Nghymru.
2. Croesawyd yr adroddiad gan yr aelodau, ac awgrymwyd y gallai fersiynau'r crynodeb blynyddol hwn yn y dyfodol ganolbwyntio mwy ar weithgaredd y Brifysgol yng nghyswllt y Gymraeg a Diwylliant Cymru (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

PENDERFYNWYD

3. Y dylai Gweithrediaeth y Brifysgol ystyried a fyddai'n fuddiol i gomisiynu asesiad allanol o effaith economaidd y Brifysgol ar yr ardal leol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

55. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (COU1819-084).

NODWYD

1. Mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ers 01 Ebrill 2018. Roedd yr adroddiad felly'n canolbwyntio ar y cyfnod o 01 Ebrill i 31 Gorffennaf 2018, ac yn nodi'r gweithdrefnau newydd cadarnach a fabwysiadwyd i sicrhau cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).
3. Yn y dyfodol y dylai'r Cyngor, yn rhan o'r drefn, dderbyn gwybodaeth am gwynion a dderbynnir gan y Brifysgol yn gysylltiedig â'i dulliau o gymhwyso Safonau'r Gymraeg (**GWEITHREDU:** Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

56. DIWEDDARIAD THEMATIG: CYDRADDOLDEB AC AMRYWIOLDEB

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); a Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb Adnoddau Dynol (COU1819-082).

NODWYD

1. Roedd y diweddariad yn darparu data a sylwebaeth ar y cynnydd mae'r Brifysgol yn ei wneud yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y gweithle.
2. Roedd gwaith nawr yn mynd rhagddo i ddrafftio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol, y bydd angen ei gymeradwyo'n ffurfiol a'i gyhoeddi ar-lein erbyn 31 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid cyflwyno'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol i'r Pwyllgor LI&Ch i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2019, ac wedyn ei ddsbarthu i aelodau'r Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol trwy ohebiaeth ddiwedd mis Mawrth (**GWEITHREDU**: Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb Adnoddau Dynol).

57. CYNLLUN FFOEDD A MYNEDIAD: DATGANIAD MONITRO BLYNYDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Datblygu Strategol (COU1819-086).

NODWYD

1. Mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod sefydliadau yng Nghymru yn cyflwyno Datganiad Monitro Blynyddol ynghylch Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017–18 erbyn 31 Ionawr 2019. Mae'r Cyngor Cyllido hefyd yn mynnu bod y Datganiad yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu ar gyfer ei gyflwyno.
2. Oherwydd bod dyddiad cyfarfod y Cyngor mor agos at y dyddiad cau a roddwyd gan y Cyngor Cyllido, cytunwyd i dderbyn y cyflwyniad ffurfiol yn dilyn cyfarfod Cyngor y Brifysgol. Serch hynny roedd copi drafft o'r Datganiad Monitro Blynyddol wedi ei rannu â'r Cyngor Cyllido cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd.

PENDERFYNWYD

3. Rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Datganiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i CCAUC (**GWEITHREDU**: Pennaeth Datblygu Strategol).

58. POLISI AR ENWI ADEILADU'R BRIFYSGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (COU1819-097).

NODWYD

1. Mewn ymateb i gynigion diweddar ynglŷn ag enwi neu ailenwi adeiladau'r Brifysgol ar Gampws Penglais, datblygodd y Weithrediaeth fframwaith ar gyfer cytuno ar enwau i adeiladau a lleoedd eraill y sefydliad.
2. Wrth ddrafftio'r polisi arfaethedig, cyfeiriwyd at arferion sefydliadau eraill yn ogystal ag at arferion PA yn y gorffennol. Nodwyd hefyd yr egwyddorion allweddol y byddai'r Brifysgol yn dymuno rhoi ystyriaeth iddynt yn ei dull o enwi adeiladau.
3. Ystyriwyd y polisi arfaethedig gan y Pwyllgor LI&Ch ar 24 Ionawr 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo yn amodol ar un ychwanegiad bach. Cafodd fersiwn ddrafft y polisi a ddsbarthwyd i'r Cyngor ei ddiwygio'n unol ag adborth o'r Pwyllgor LI&Ch.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Polisi ar Enwi Adeiladau'r Brifysgol (**GWEITHREDU**: Rheolwr Cynllunio Gofod).

59. POLISI BUDDSODDI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-088).

NODWYD

1. Ar 05 Tachwedd 2018, roedd aelodau'r Pwyllgor Buddsoddiadau wedi ystyried Polisi Buddsoddiadau'r sefydliad, ac wedi awgrymu newidiadau i'r Polisi y dylid eu hystyried ymhellach gan y Cyngor. Roedd y diwygiadau a gynigiwyd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.
2. Roedd y Pwyllgor Buddsoddiadau yn awr yn adolygu'r 'Datganiad Buddsoddi Cymdeithasol Gyfrifol' yn y Polisi Buddsoddiadau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Polisi Buddsoddiadau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

60. Y PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD: CYLCH GORCHWYL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-089).

NODWYD

1. Ar 16 Tachwedd 2018, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor, ac wedi cytuno i argymhell y dylai'r Cyngor gytuno ar ddiwygiadau i eiriad yr adran 'Cyfrifoldebau'.
2. Nid oedd yr adroddiad, fel y cafodd ei ddsbarthu i'r Cyngor, yn cynnwys dull o nodi'r newidiadau a gynigiwyd.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Pwyllgor, yn amodol ar ddsbarthu copi'n tynnu sylw at y newidiadau i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

61. CYTUNDEB CYFRANDDALWYR CAMPWS ARLOESED ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Brif Swyddog Gweithredol y Campws Arloesedd (COU1819-090).

NODWYD

1. Mae Campws Ymchwil ac Arloesedd Aberystwyth Cyf yn gweithredu fel corff *Teckal* o'r Brifysgol, sy'n caniatáu bod darparu gwasanaethau rhwng cwmni AIEC Cyf a'r Brifysgol yn drefniant gweinyddol mewnol i ddibenion caffael.
2. Er mwyn diogelu Teckal o fewn i ddull llywodraethu AIEC Cyf, roedd cyfres o fân newidiadau'n cael eu cynnig i Gytundeb y Cyfranddalwyr ar sail y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd. Cafodd y newidiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 24 Chwefror 2019, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cytundeb Cyfranddalwyr, fel y gellid diwygio'r Cytundeb ar ran y Brifysgol (**GWEITHREDU**: Prif Swyddog Gweithredol y Campws Arloesedd).

62. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1819-091); a
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1819-092).

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

63. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1819-093):

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (24 Ionawr 2019); a
2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (24 Ionawr 2019).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.